**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Ionawr 2003 |
| **Amser:** | 9.00 – 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Yn Bresennol:** | |
| **Aelodau** | Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)<br><br>Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)<br><br>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)<br><br>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)<br><br>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Alison Halford (Llafur, Delyn)<br><br>Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)<br><br>Glyn Davies (Ceidwadwyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd) |
| **Swyddogion** | Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Arthur Emyr (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)<br><br>Russell Thomas (Yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg) |
| **Yr Ysgrifenyddiaeth** | Marie Knox: Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau |
| | Lynsey Hazzard: Dirprwy Glerc |

**9.00am-9.05am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.
2. Gwnaeth y Cadeirydd atgoffa'r Aelodau am yr angen iddynt, yn ôl Rheol Sefydlog 4.5 i ddatgan buddiannau.
3. Ymddiheurodd y Cadeirydd bod rhai o'r papurau hir ynghylch adroddiad pum mlynedd y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru, a oedd i'w hamgáu gydag adroddiad y Gweinidog, yn hwyr yn cyrraedd. Esboniodd y Cadeirydd nad oedd angen rhoi sylwadau ar y papurau tan ddiwedd mis Chwefror. Yr oedd y cynlluniau corfforaethol electronig ar gyfer Eitem 3 hefyd yn hwyr. Y bwriad oedd, yn y dyfodol, i Wasanaethau Ymchwil yr Aelodau a'r Pwyllgorau (MRCS) roi crynodeb o'r dogfennau hir.

**9.05am i 10.00am**

**Eitem 2: Adolygiad o'r Polisi Chwaraeon: Dadansoddiad o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

**CC 02-03(p.1); CC 02-03 {p1 Atodiad 1); CC 02-03 (p2); CC 02-03 (p2 Atodiad A); CC 02-03 (p3)**

1. Tynnodd y Cadeirydd sylw at bapur P6 a ddosbarthwyd i'r Aelodau., sef crynodeb y Gweinidog o fentrau chwaraeon presennol, Dywedodd y Cadeirydd mai pwrpas y drafodaeth oedd clywed safbwyntiau aelodau'r Pwyllgor am yr adolygiad a phenderfynu a oedd angen unrhyw wybodaeth ychwanegol. Cyfeiriodd y Cadeirydd yr Aelodau at bapur P2, a oedd yn cynnwys crynodeb o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn ystod y broses o gasglu gwybodaeth ac amlinellodd y 4 mater allweddol yr oedd angen i'r Pwyllgor eu trafod. Gwnaed y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- Yr oedd angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â chost chwaraeon ledled Cymru. Teimlwyd y byddai'r wybodaeth yn ddefnyddiol yn nhermau asesu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon, o ystyried bod rhai awdurdodau yn ariannu adnoddau er mwyn annog pobl i gymryd rhan. Yr oedd angen gwybodaeth ychwanegol hefyd mewn perthynas â'r cyfleoedd i'r anabl gymryd rhan.
- Mynegwyd pryder y byddai'r adolygiad yn ailadrodd canlyniadau cyrff eraill. Yr oedd angen i'r Pwyllgor feddwl am syniadau newydd er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn cynnig argymhellion a fyddai'n ychwanegu gwerth at y polisïau presennol.
- Er nad oedd hi'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i ystyried costau unrhyw gynigion a gyflwynwyd ganddynt, dywedodd y Cadeirydd y dylid cadw'r costau mewn cof.
- Er bod y grwpiau a fu'n siarad â'r Pwyllgor wedi rhoi amlinelliad manwl o'u gwaith presennol, ni chyflwynwyd digon o wybodaeth mewn perthynas â'u gweledigaeth ar gyfer y 10-20 mlynedd nesaf, a fyddai wedi bod o gymorth i'r Pwyllgor wrth lunio strategaeth.

1. Awgrymodd y Gweinidog y dylai'r Pwyllgor ystyried rhai cwestiynau sylfaenol wrth ystyried canolbwynt yr adolygiad, megis:

- A ddylid roi pwysigrwydd ar gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, gwella'r adnoddau ar gyfer yr athletwyr gorau, neu'r ddau;
- A ddylid ystyried pob math o chwaraeon neu y chwaraeon sy'n draddodiadol boblogaidd yn unig;
- A ddylid defnyddio cyllid i ganolbwyntio ar wella adnoddau presennol yn hytrach nag adeiladu adnoddau newydd;
- A ddylid, mewn perthynas â'r ddarpariaeth o adnoddau, ganolbwyntio ar y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r ddau.

1. Yn dilyn trafodaeth rhwng yr aelodau, cytunwyd y dylid rhoi ystyriaeth i’r meysydd canlynol wrth ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor:

- Annog pawb i gymryd rhan - yr oedd cylch gwaith y Pwyllgor eisoes wedi cytuno y dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar gael pobl i gymryd rhan yn hytrach na chwaraeon i'r rhai gorau yn unig. Cadarnhawyd hyn unwaith eto.
- Themâu allweddol - nodwyd y themâu allweddol wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghori.
- Plant a phobl ifanc - gweithgareddau cwricwlaidd ac all-gwricwlaidd a mynd i'r afael â nifer y plant sy'n peidio â chymryd rhan yn y cyfryw weithgareddau ar ôl mynd i'r ysgol uwchradd.
- Annog rhai sydd wedi gadael ysgol i gymryd rhan - mynd i'r afael â'r rhai sy'n peidio â chymryd rhan ar ôl gadael ysgol.
- Merched a menywod - yr oedd angen mwy o enghreifftiau i'w dilyn. Dylid canolbwyntio hefyd ar weithgareddau corfforol yn hytrach nag ar chwaraeon tîm yn unig.
- Mynediad i bawb - galluogi gwell mynediad i'r grwpiau sy'n cael eu hallgáu.
- Cynyddu'r dewis - cefnogaeth i chwaraeon a ystyrir yn rhai lleiafrifol.
- Costau - sicrhau bod y grwpiau yn gallu fforddio cymryd rhan.
- Trafnidiaeth - ar gyfer rhai grwpiau penodol ac yn yr ardaloedd gwledig.
- Hyfforddi a gwirfoddoli
- Iechyd ac addysg - byddai'n rhaid i'r Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a Dysgu Gydol Oes ystyried yr argymhellion manwl.

1. I gloi, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r adroddiad drafft yn gryno, yn nodi'r meysydd eang lle'r oedd angen gweithredu pellach a chyfeirio'r argymhellion at y cyrff perthnasol.

Pwyntiau Gweithredu

- MRCS i gyflwyno papur byr i'r Pwyllgor yn amlinellu'r meysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn yr adolygiad.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at Gyngor Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ofyn am wybodaeth ynghylch costau amrywiol yr adnoddau ledled Cymru a sicrhau bod yr adnoddau o fewn cyrraedd yr anabl.
- Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn eu gwahodd i ystyried safbwyntiau iechyd ac addysg o ganlyniad i gymryd rhan mewn chwaraeon.

**Egwyl o 15 munud 10.15am-10.45am**

**10.45am-11.30am**

**Eitem 3: Cyngor Amgueddfeydd Cymru**

**CC-02-03 (p4)**

Cyflwynwyr: John Marjoram, Cyfarwyddwr Dros Dro a Robert Francis-Davies, Cadeirydd Cyngor Amgueddfeydd Cymru (CMW).

3.1 Bwriad y cyflwyniad oedd edrych ar adroddiad blynyddol a chynllun corfforaethol Cyngor Amgueddfeydd Cymru. Gweler Atodiad A am gopi o'r cyflwyniad. Gwnaed y pwyntiau a ganlyn:

- Mae Cyngor Amgueddfeydd Cymru wedi bodoli ers 35 mlynedd. Yr oedd yn cael ei noddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yr oedd aelodau'r sefydliad yn cynrychioli'r awdurdod lleol, ac amgueddfeydd annibynnol ac ymddiriedolaeth yng Nghymru. Yr oedd eu cylch gwaith yn cynnwys cadw'r casgliadau, targedu cymorth grant, gwella safonau gofal y casgliadau, datblygu gwasanaethau cyhoeddus a chwarae rôl gynghorol. Ers 1968 mae nifer yr amgueddfeydd lleol yng Nghymru wedi cynyddu o 29 a oedd yn cyflogi 10 aelod o staff proffesiynol i ryw 105 yn cyflogi 120 o staff proffesiynol. Mae Cyngor Amgueddfeydd Cymru wedi creu 47 o swyddi â chymhorthdal er mwyn helpu gyda datblygiad y safonau gofal proffesiynol. Cyfanswm y grantiau a roddwyd i'r amgueddfeydd gan Gyngor Amgueddfeydd Cymru oedd £3.3 miliwn ac yr oedd pob rhan o Gymru wedi elwa.
- Byddai Cyngor Amgueddfeydd Cymru yn cael ei ddileu ym mis Mawrth 2004 gyda CyMAL yn cymryd ei le. Yr oedd nifer o fentrau yn eu lle y byddai'n rhaid i CyMAL barhau â hwy, megis:

- Eiriolaeth - Yr oedd pryder na fyddai cylch gwaith CyMAL yn cynnwys y rôl hon.
- "Mapio Amgueddfeydd Cymru 2002" - dyma arolwg meintiol ac ansoddol o gasgliadau a gwasanaethau cyhoeddus mewn amgueddfeydd yng Nghymru. Bydd angen diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd.
- Perthynas rhwng amgueddfeydd yng Nghymru a "Resource" (Cyngor yr Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd) - Mae Cyngor Amgueddfeydd Cymru wedi goruchwylio Cynllun Cofrestru yr Amgueddfeydd a dyma'r unig Gyngor Amgueddfa Ardal yn y DU i gwblhau cofrestriad Cam 2 o fewn yr amser a bennwyd. Bydd angen i CyMAL barhau â chofrestriad Cam 3. Teimlwyd bod Resource wedi bod yn canolbwyntio gormod ar Loegr hyd yn hyn. Derbyniodd Cyngor Amgueddfeydd Cymru gefnogaeth oedd yn cyfateb i £10,000 y flwyddyn oddi wrth Resource. Cyn hyn yr oedd yn derbyn £50,000 y flwyddyn. Gobeithiwyd y byddai'r sefyllfa'n gwella yn dilyn penodiad Anna Southall yn Brif Weithredwr Resource.
- Swyddi â chymhorthdal - yr oedd swyddogion amgueddfeydd yn yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos â'r amgueddfeydd annibynnol, gan ddarparu cefnogaeth barhaus, cyngor a chymorth mewn perthynas ag addysg, mynediad a gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- Parhau â'r rhaglenni grant - Gwnaed gwaith gyda'r 3 amgueddfa leol, sef Oriel Ynys Môn, Wrecsam a Brycheiniog, er mwyn datblygu'u seilwaith drwy'r cynllun "Cyfoeth Cymru Gyfan". Yr oedd hyn yn bosibl o ganlyniad i'r arian ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gobeithiwyd y byddai'r amgueddfeydd yn elwa o arian tebyg y flwyddyn nesaf.
- Gweithio gyda llyfrgelloedd ac archifau - yn enwedig mewn perthynas â darparu seminarau hyfforddiant. Dylai'r gwaith hwn barhau.
- Amgueddfeydd prifysgol - yn 2002, cyhoeddodd Cyngor Amgueddfeydd Cymru arolwg ar ei wefan o'r enw 'Ciniawa Ymysg yr Esgyrn' a oedd yn nodi'r casgliadau sylweddol a gedwir yn y

prifysgolion. Teimlwyd nad oedd y casgliadau yn derbyn digon o arian a gobeithiwyd y byddai CyMAL yn rhoi cymorth i'w hadfer.
- Cymru'n Creu - mynegwyd pryder y byddai'r amgueddfeydd lleol yn colli'u cynrychiolaeth ar Gymru'n Creu o ganlyniad i ddileu Cyngor Amgueddfeydd Cymru.

3.2 Yna gwnaeth y Gweinidog y sylwadau canlynol:

- Roedd pennaeth CyMAL yn ymwneud â Chymru'n Creu ac felly byddai sicrwydd y byddai'r ymwneud hwnnw'n parhau.
- Roedd y Gweinidog o'r farn bod gormod o bwyslais wedi'i roi ar yr ofn o gyflwyno CyMAL.
- Nid oedd unrhyw beth yn rhwystro Cyngor Amgueddfeydd Cymru rhag cadw ei rôl eiriolaeth, hyd yn oed pe byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu ei gyllid yn ôl, gan nad oedd Cyngor Amgueddfeydd Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, ond yn hytrach yn gorff sy'n cael ei ariannu ganddo.
- Dylai CyMAL ffurfio partneriaeth gadarn gyda Resource gan fod gan Resource fwy o adnoddau ac er mwyn defnyddio'r adnoddau hynny i'r eithaf.

3.3 Yn dilyn hyn, cafwyd sesiwn holi ac ateb, a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Hyd yn hyn, roedd yr holl gymwysterau perthnasol yn deillio o Loegr. Erbyn hyn, mae Prifysgol Aberystwyth wedi datblygu cwrs amgueddfeydd ac orielau ac roedd Prifysgol Morgannwg hefyd yn datblygu cyrsiau NVQ. Mae angen datblygu mwy o gyrsiau hyfforddiant penodol yn y wlad hon.
- Naws a chyfeiriad CyMAL - roedd Cyngor Amgueddfeydd Cymru yn awyddus i wneud yn siwr na fyddai'r hyn a gyflawnwyd hyd yma yn cael ei golli. Roeddynt yn croesawu'r cymorth parhaus ar gyfer yr amgueddfeydd annibynnol.
- Arteffactau y tu allan i Gymru, yn enwedig "Clogyn yr Wyddgrug" a oedd ar hyn o bryd yn cael ei arddangos yn yr Amgueddfa Brydeinig. Roedd yn bwysig cael y seilwaith iawn yn Ngogledd Ddwyrain Cymru fel bod modd dod â'r eitem fregus hon yn ôl adref.
- Roedd cofrestru amgueddfeydd yn golygu sicrhau bod safon y gofal a roddir i'r casgliadau, y diogelwch a'r gwasanaethau cyhoeddus yn ddigon da fel bod arteffactau yn cael eu gwarchod yn briodol. Hefyd roedd angen i'r amgueddfa fod â chasgliadau parhaol a bod â sail gyfansoddiadol gadarn. Roedd hyn yn galluogi'r amgueddfa i ddenu cymorth grant oddi wrth ffynonellau mawr megis cyllid y loteri.

<u>Pwyntiau Gweithredu</u>

- Byddai'r Cadeirydd yn estyn gwahoddiad i Anna Southall annerch y Pwyllgor am Resource.

<u>**11.30am i 12.00pm**</u>

<u>**Eitem 4: Adroddiad Misol y Gweinidog**</u>

**CC-02-03 (p5)**

4.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Awgrymodd y Gweinidog y dylai cadeirydd y Cyngor Gwasanaethau Gwybodaeth Llyfrgell (LISC)

fynychu'r Pwyllgor i wneud cyflwyniad am ei waith presennol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal y cyflwyniad cyn mis Ebrill. Os na fyddai hyn yn bosibl, argymhellir i'r Pwyllgor olynol y dylai LISC fod yn bresennol.

- Nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud i drosglwyddo CADW i bortffolio'r Gweinidog Diwylliant. Ar hyn o bryd cyfrifoldeb y Gweinidog dros yr Amgylchedd oedd CADW.
- Roedd y Grwp Strategaeth Digwyddiadau yn cynnwys Andrew Davies, y Gweinidog a chynrychiolwyr Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Roeddynt yn gweithio gydag ymgynghorwyr, yn edrych ar ddigwyddiadau mawr mewn gwahanol rannau o Gymru. Nod y Grwp oedd helpu awdurdodau lleol nad oedd â'r maint na'r arbenigedd i ddenu digwyddiadau eu hunain.
- Mae adolygiad Cyngor Celfyddydau Cymru o Wyliau yng Nghymru wedi'i gyflawni fel rhan o'i gynllun strategol 5 mlynedd. Gorffennwyd yr adolygiad yr haf diwethaf ac roedd ar gael ar wefan Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru a llywyddion Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn perthynas â thalu cadeiryddion. Oherwydd eu bod yn gyrff a sefydlwyd o dan Siarter Brenhinol, byddai angen iddynt wneud newidiadau i'w Siarter. Roedd y Gweinidog yn falch iawn bod nifer dda o geisiadau wedi dod i law am swydd Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru. Byddai penderfyniad yn cael ei wneud gan banel penodi a oedd yn cynnwys y Gweinidog, aelodau ac asesydd allanol.
- Roedd y Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi cytuno i baratoi ffurflenni yn Gymraeg yn dilyn ymyriad gan Brif Weinidog Cymru a chymorth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Deddfwriaeth ynghylch cyfyngu ar weithgareddau celf mewn capeli - roedd y Gweinidog yn ysgrifennu at yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i fynegi pryderon am y cynigion.
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru - roedd pob agwedd ar waith yr Ardd yn cael eu hystyried ac nid dim ond y materion ariannol yn unig.
- Canolfan Mileniwm Cymru - mae £2 filiwn o bunnau wedi'i neilltuo i ddatblygu prosiectau celf y tu allan i Gaerdydd. Byddai grwp yn cael ei ffurfio i ystyried y gwahanol brosiectau a awgrymwyd. Byddai awgrymiadau newydd ac arloesol yn cael eu hystyried.

**<u>12.00pm i 12.30pm</u>**

**<u>Eitem 5: Ymddiriedolaeth Gelfyddydau Bae Caerdydd (CBAT)</u>**

Cyflwynwyr: Carole-Anne Davies, Cyfarwyddwr, Geraint Talfan Davies, Cadeirydd a Wiard Sterk, Cyfarwyddwr Comisiynau CBAT.

5.1 Pwrpas y cyflwyniad oedd tynnu sylw at waith yr Ymddiriedolaeth. Gweler Atodiad B am gopi o'r cyflwyniad. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Ffurfiwyd CBAT gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (CBDC) yn 1991. Yn wreiddiol, Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd oedd yn ariannu CBAT. Pan ddaeth tymor CBDC i ben, penderfynodd CBAT barhau. Cafodd CBAT gyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a'r cyngor lleol. Rhwng 1991 a 2003, cafodd CBAT £850,000 o gyllid. Roeddynt newydd orffen strategaeth Cyngor Sir Caerdydd ar gelfyddyd gyhoeddus, a oedd, yn ei hanfod, yn fodel ar gyfer Caerdydd, er y gellid ei gymhwyso ledled Cymru.

- Nid oedd cylch gwaith CBAT yn gyfyngedig i Fae Caerdydd, gan ei fod yn cwmpasu prosiectau o bob rhan o Gymru yn ogystal â sawl prosiect yn Lloegr. Y rhesymeg dros brosiectau y tu allan i Gymru oedd datblygu cyfleoedd yn y DU ar gyfer artistiaid Cymreig a gwella enw da celfyddyd o Gymru.
- Roedd celfyddyd gyhoeddus yn bwysig gan ei bod yn cyfoethogi adeiladau cyhoeddus, yn creu hunaniaeth ddinesig, yn creu mannau cyhoeddus mwy diogel, yn datblygu'r economi ddiwylliannol ac yn agored i bawb. Serch hynny, roedd lle mawr i ddatblygu. Gobaith y cynllun "Cymru Greadigol" oedd estyn arfer gorau i Gymru gyfan.

5.2 Yn dilyn hyn, cafwyd sesiwn holi ac ateb, a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mewn ambell wlad Ewropeaidd, mae darparu celfyddyd gyhoeddus yn rhywbeth hollol naturiol. Nid yw hyn yn wir yn y DU. Mae'r agwedd at gelfyddyd gyhoeddus yn dibynnu i raddau helaeth ar frwdfrydedd yr awdurdod lleol.
- Roedd yn rhaid wrth gryn dipyn o waith cyfreithiol a gwaith dan gontract i ddarparu celfyddyd gyhoeddus. Roedd angen cynnwys trefniadau cynnal a chadw mewn contractau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd. Ar y cyfan, nid yw fandaliaeth wedi codi'i ben gyda chelfyddyd gyhoeddus a dim ond un prosiect yng Nghaerdydd a gafodd ei ddifrodi'n fwriadol. Os oedd pobl yn cael amgylchedd o safon, roeddynt yn tueddu i'w barchu.
- Roedd dinasoedd Cymru yn llenwi eu mannau cyhoeddus gyda chelfyddyd gyhoeddus. Er enghraifft, yn Abertawe, roedd Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio gyda thimau aml-asiantaeth, gan gynnwys arbenigwyr amgylcheddol, arbenigwyr eiddo ac arbenigwyr mewn celfyddyd gyhoeddus i ddarparu fframwaith i'r dref ac asesu safleoedd yn effeithiol.
- Roedd datblygwyr masnachol yn cydnabod bod y farchnad yn dod yn fwy cystadleuol o hyd ac felly roedd celfyddyd gyhoeddus wedi dod yn bwysig dros ben. Roedd nifer helaeth yn gleientiaid CBAT, gan gynnwys cwmnïau adeiladu tai megis Barratt, Persimmon a Bellway Homes.
- Ar hyn o bryd, mae CBAT yn cael 3-4 gwahoddiad i dendro bob wythnos. Roeddynt wedi cael eu defnyddio mewn gwledydd fel Ffrainc a Sbaen fel model o arfer da. Roeddynt hefyd wedi cael bidiau o Fanceinion, Bryste, Cernyw, Avon a Chaerloyw.
- Asiantaethau datblygu fel rheol oedd yn cymryd y cam cyntaf o gysylltu â CBAT i baratoi gwaith. Roedd grwpiau cymunedol bach hefyd yn cysylltu â CBAT.

**<u>Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol</u>**

**CC 01-02 (cof)**

1. Cytunodd yr aelodau ar gofnodion y cyfarfod diwethaf ar 16 Ionawr 2003 yn amodol ar fân welliannau i'w cynnwys gan yr Ysgrifenyddiaeth yng nghyflwyniad Swyddfa'r Cabinet.

<u>Pwyntiau Gweithredu</u>

- Diweddaru'r cofnodion.